# Tywysog Cymru a Duges Cernyw
# Adolygiad Blynyddol 2006

Diben yr Adolygiad Blynyddol yma yw cynnig golwg cyffredinol o weithgareddau swyddogol ac elusennol Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Mae hefyd yn cynnig gwybodaeth am eu hincwm a'u gwariant swyddogol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2006.

Mae'r Adolygiad yn disgrifio rôl a gweithgareddau Tywysog Cymru sydd â thair prif elfen: cyflawni dyletswyddau brenhinol er mwyn cefnogi'r Frenhines, gweithio fel entrepreneur elusennol, a hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth y genedl.

**CYNNWYS**


**01 | 09** **CYFLWYNIAD**
02 | 03 Crynodeb
04 | 05 Ymrwymiadau a gweithgareddau
06 | 07 Dugaeth Cernyw
08 | 09 Cyfrifoldebau amgylcheddol a chymdeithasol

**10 | 17** **CEFNOGI'R FRENHINES**
12 | 15 Y Deyrnas Unedig a thramor
16 | 17 Y Gwasanaethau Arfog

**18 | 35** **ENTREPRENEUR ELUSENNOL**
*Dathlu 30 mlynedd The Prince's Trust*
20 | 25 £110 miliwn at elusennau
26 | 27 Cyfle a menter
28 | 29 Iechyd
30 | 31 Addysg
32 | 33 Busnes cyfrifol
34 Yr amgylchedd naturiol
35 *Duchy Originals*
36 | 37 Yr amgylchedd adeiledig
38 | 39 Y celfyddydau

**40 | 44** **HYBU AC AMDDIFFYN**
40 | 41 Tynnu sylw at rai materion

**45 | 53** **INCWM, GWARIANT A STAFF**
46 Cyfrif incwm a gwariant
46 | 47 Incwm ac ariannu
48 | 49 Gwariant
50 | 54 Staff
54 Ymweliadau blynyddol
55 Dadansoddiad o'r costau swyddogol yn ôl categori gwariant

**56 | 59** **ATODIAD**
56 | 58 Portffolios Uwch Reolwyr
59 Elusennau'r Tywysog

# CRYNODEB

Mae'r Adolygiad Blynyddol yma'n cynnwys y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2006. Gyda'r cyflwyniad yma a dewis o ddigwyddiadau'r flwyddyn, mae pedair prif adran iddo: un yr un ar gyfer tair prif elfen rôl Tywysog Cymru, gyda'r bedwaredd (yn cynnwys yr Atodiad) yn manylu ar ddull ariannu ei weithgareddau a'i swyddfa ef a Duges Cernyw, a disgrifiad o gyfrifoldebau'r staff uwch.

Er nad oes gan Etifedd Yr Orsedd rôl gyfansoddiadol sefydlog, mae Tywysog Cymru, gyda chymorth ei wraig Duges Cernyw, yn ceisio gwneud cymaint â phosib i ddefnyddio'i safle unigryw i wella pethau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae ffordd Ei Uchelder Brenhinol o gyflawni hyn yn amrywio dros amser ac yn ôl yr amgylchiadau ond, yn syml, mae'n bosib ei rhannu'n dair rhan.

**Cyflawni dyletswyddau brenhinol er mwyn cefnogi'r Frenhines**
Mae hyn yn golygu bod y Tywysog yn cefnogi'r Frenhines yn ei rôl fel canolbwynt balchder, undod a theyrngarwch y genedl. Mae'n dod â phobl o bob rhan o gymdeithas at ei gilydd, ac yn cynrychioli sefydlogrwydd a dilyniant, tynnu sylw at gyflawni, a phwysleisio pwysigrwydd gwasanaeth a'r sector gwirfoddol drwy annog a gosod esiampl.

**Gweithio fel entrepreneur elusennol**
Ers nifer o flynyddoedd, bu'r Tywysog yn gweithio i geisio adnabod angen elusennol ac i sefydlu a hybu elusennau i gwrdd â'r angen yna. Erbyn heddiw, yr enw ar y grŵp craidd o 16 mudiad yw Elusennau'r Tywysog, a'r grŵp yma yw menter elusennol fwyaf y DU ac maen nhw'n cwmpasu nifer o achosion. Bob blwyddyn, mae Ei Uchelder Brenhinol yn helpu i godi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dros £100 miliwn i gynorthwyo gwaith ei elusennau. Rhyngddyn nhw, mae'r 16 elusen yn cyflogi dros 1,400 o bobl, ac mae miloedd o wirfoddolwyr yn cynnig cymorth gwerthfawr ychwanegol. Mae'r Tywysog hefyd yn gweithredu fel Llywydd neu Noddwr tua 370 o elusennau eraill.

**Hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth y genedl**
Mae'r gwaith yn cynnwys cefnogi cymunedau gwledig Prydain, hybu goddefgarwch a dealltwriaeth rhwng gwahanol ffydd a chymunedau, a thynnu sylw at gyflawniadau neu faterion a allai, heb gefnogaeth Tywysog Cymru, gael ychydig iawn o sylw. Yn y cyswllt yma, mae Ei Uchelder Brenhinol yn symbylu trwy hyrwyddo trafod neu newid. I wneud hyn, mae'n ysgrifennu llythyrau at Weinidogion y Llywodraeth a phobl ddylanwadol eraill, ac yn eu cwrdd, yn areithio ac yn ysgrifennu erthyglau. Wrth wneud hyn, mae bob amser yn gofalu osgoi pynciau sy'n perthyn i faes y pleidiau gwleidyddol. Mae'n cyfathrebu â Gweinidogion fel aelod o'r Cyfrin Gyngor ac yn tynnu sylw at faterion y mae pobl yn eu codi yn ystod ei ymweliadau o gwmpas y wlad.

Wrth gyflawni ei waith fel Etifedd yr Orsedd, mae'r Tywysog yn cael cefnogaeth ei wraig, Duges Cernyw, sy'n mynd gyda'i gŵr i lawer o'i ymrwymiadau cyhoeddus. Mae Ei Huchelder Brenhinol hefyd yn mynd ar ei phen ei hun i ymrwymiadau a digwyddiadau, ac mae'n gwneud llawer o waith elusennol fel Noddwr neu Lywydd nifer o elusennau a mudiadau.

## INCWM A GWARIANT

| Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth | 2006 £000oedd | 2005 £000oedd |
|---|---|---|
| Incwm o Ddugaeth Cernyw | 14,067 | 13,274 |
| Ariannu drwy Grantiau Cymorth ac adrannau'r Llywodraeth | 2,073 | 2,688 |
| **Cyfanswm yr incwm a'r ariannu** | **16,140** | **15,962** |
| Gwariant swyddogol | 8,660 | 8,625 |
| Treth | 3,296 | 3,263 |
| Gwariant personol | 2,181 | 2,204 |
| Gwariant cyfalaf (llai dibrisio), ad-daliadau benthyciad a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn | 1,867 | 1,739 |
| **Gwarged arian net** | **136** | **131** |

Mae manylion ar wefan Y Tywysog **www.princeofwales.gov.uk** am ymrwymiadau swyddogol, areithiau, erthyglau a llawer o wybodaeth fywgraffyddol a ffeithiol.

**Crynodeb**
Er bod ffordd Tywysog Cymru o fynd ati i gyflawni ei ddyletswyddau cyhoeddus yn weddol gyson o'r naill flwyddyn i'r llall, roedd pedair nodwedd arbennig i 2005-06.

Y nodwedd gyntaf oedd presenoldeb Duges Cernyw wrth ochr ei gŵr trwy gydol ei ddau brif ymweliad tramor ac ar nifer o'i ymrwymiadau cyhoeddus gartref, ar ôl eu priodas ar 9 Ebrill 2005. Aeth Ei Huchelder Brenhinol gyda'r Tywysog i gyfanswm o 147 o ymrwymiadau swyddogol yn y DU, a 49 o ymrwymiadau eraill dramor. Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd y Dduges 30 o ymrwymiadau swyddogol ar ei phen ei hun yn y DU, a phedwar dramor.

Yr ail nodwedd oedd newid yn yr hinsawdd - mater y bu'r Tywysog yn tynnu sylw ato ers nifer o flynyddoedd. Yr amgylchedd oedd un o brif themâu ymweliad Eu Huchelderau Brenhinol ag UDA. Traddododd y Tywysog araith bwysig ar newid yn yr hinsawdd i arweinwyr busnesau yn San Ffransisco. Ac wrth gynnig llwncdestun yn ystod cinio yn y Tŷ Gwyn yn Washington DC, fe dynnodd sylw at rôl allweddol America wrth fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar y blaned.

Yn y DU, tynnodd y Tywysog sylw at fygythiad newid yn yr hinsawdd mewn cyfweliad gyda'r BBC a gafodd gryn sylw yn y cyfryngau eraill hefyd. Aeth ati hefyd mewn araith i Sefydliad y Cyfrifyddion Siartredig i annog busnesau i wneud mwy i roi sylw i gynaliadwyedd ac, yn ystod ymweliad â phencadlys Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) yn Llundain, anogodd busnesau i fynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd. Wrth geisio dilyn ei bregeth ei hun, mae Ei Uchelder Brenhinol wedi ymrwymo'i Aelwyd i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon ac i gwtogi ar allyriadau carbon.

Y drydedd nodwedd oedd ymrwymiad y Tywysog i greu perthynas esmwyth rhwng cymunedau o bob ffydd yn y DU a thramor, sef rhywbeth a fu'n un o nodweddion gwaith Ei Uchelder Brenhinol ers nifer o flynyddoedd. Uchafbwyntiau'r flwyddyn yn y cyswllt yma oedd ei ddwy araith yn ystod taith y Gwanwyn: y gyntaf ym Mhrifysgol Al-Azhar yn yr Aifft, a'r ail ym Mhrifysgol Imam Muhammad bin Saud yn Sawdi-Arabia. Y Tywysog yw'r Gorllewinwr cyntaf i siarad yng nghanolfan dysg Islamaidd amlycaf Sawdi-Arabia.

Y bedwaredd nodwedd oedd dathlu pen 30 mlynedd ers sefydlu ymddiriedolaeth y Tywysog, *The Prince's Trust*. Dechreuodd y dathliadau go iawn wrth gynnal digwyddiad y gwobrwyon *Celebrate Success* yn Llundain ym mis Chwefror 2006. Penllanw'r dathlu oedd cyngerdd yn Nhŵr Llundain ddiwedd mis Mai yng nghwmni Tywysog Cymru, y Dduges, Tywysog William a Thywysog Harry. Cafodd y cyngerdd ei ddarlledu'n fyw ar deledu'r ITV gan helpu i godi £3 miliwn i'r ymddiriedolaeth, a hwn oedd y digwyddiad codi arian mwyaf llwyddiannus yn hanes yr elusen.

# Ymrwymiadau a gweithgareddau

Yn 2005-06, cyflawnodd Tywysog Cymru gyfanswm o 642 o ymrwymiadau swyddogol, a 81 o'r rheini dramor. Cyflawnodd Duges Cernyw 230 o ymrwymiadau, a 53 o'r rheini dramor. Mae'r digwyddiadau a'r gweithgareddau sy'n dilyn yn rhoi darlun o hyd a lled gwaith Eu Huchelderau Brenhinol yn ystod y flwyddyn.

**Duges Cernyw'n agor canolfan Epidemioleg yn Ysbyty Cyffredinol Southampton**
Ym mis Mai 2005, cyflawnodd Ei Huchelder Brenhinol ei hymrwymiad brenhinol cyntaf ar ei phen ei hun pan aeth i Ysbyty Cyffredinol Southampton yn rhinwedd ei rôl fel Llywydd y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol. Aeth ati i agor yn swyddogol Ganolfan Adnoddau Epidemioleg y Cyngor Ymchwil Meddygol.

**Graddio Tywysog William o Brifysgol St Andrews**
Ym mis Mehefin 2005, aeth y Tywysog a'r Dduges gyda'r Frenhines a Dug Caeredin i Fife i weld Tywysog William yn graddio o Brifysgol St Andrews gyda gradd MA Anrhydedd ar lefel 2:1 mewn Daearyddiaeth. Ar ôl astudio am bedair blynedd, dywedodd y Tywysog, sy'n 23 oed, fod gadael St Andrews yn ei wneud yn drist. Aeth ati i ddiolch yn gyhoeddus i'w gyd-fyfyrwyr ac i drigolion y dref yn Fife am helpu i wneud ei gyfnod yn y Brifysgol yn un hapus iawn.

**Mynd i achlysuron coffáu 60 mlynedd ers Dydd VE/VJ**
Ym mis Gorffennaf 2005, aeth Tywysog Cymru, Duges Cernyw a Thywysog Harry gyda'r Frenhines a Dug Caeredin i'r achlysur cenedlaethol ar Barêd Y Marchlu a oedd yn coffáu diwedd yr Ail Ryfel Byd. Penllanw wythnos o ddigwyddiadau oedd y diwrnod yma i goffáu 60 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd.

**Ymweliad â Washington DC i gael cinio ganol dydd a chinio nos yn y Tŷ Gwyn gydag Arlywydd a Mrs Bush**
Ym mis Tachwedd 2005 fel rhan o daith yr hydref i UDA, cafodd y Tywysog a'r Dduges ginio ganol dydd preifat yn y Tŷ Gwyn gyda'r Arlywydd ac aelodau eraill o'i deulu, cyn mynd gyda Mrs Bush i ymweld ag ysgol leol. Yn hwyrach yr un diwrnod, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i ginio ffurfiol yn y Tŷ Gwyn lle y talodd yr Arlywydd deyrnged i "ysbryd haelionus ac arweinyddiaeth gadarn" y Tywysog.

### Ymweliad â Chlwb Pêl-droed Lerpwl er mwyn anrhydeddu *The Prince's Trust*

Ym mis Tachwedd 2005, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i Anfield, cartref Clwb Pêl-droed Lerpwl, i anrhydeddu'r 10,000fed unigolyn i gymryd rhan ym Menter Bêl-droed *The Prince's Trust*. Mae'r project y mae'r Prif Gynghrair, y Sefydliad Pêl-droed a Chymdeithas y Pêl-droedwyr Proffesiynol yn ei gefnogi'n defnyddio poblogrwydd y gêm i symbylu pobl ifanc mewn trafferthion i'w helpu i roi trefn ar eu bywydau.

### Ymweliad ag estyniad trefol yn Upton, Sir Northampton

Ym mis Ionawr 2006, aeth y Tywysog i Upton, estyniad trefol o safon ar gyrion tref Northampton a gafodd ei adeiladu fel cymuned gynaliadwy i helpu i gwrdd â'r angen cyffredinol am dai fforddiadwy. Aeth sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig (*The Prince's Foundation for the Built Environment*) ati i ymgynghori â chymunedau'r ardal wrth greu'r cynllun gorau ar gyfer Upton. Yn ystod ei ymweliad, cafodd y Tywysog gyfle i gwrdd â sawl teulu sy'n elwa ar y gwaith yna.

### Agoriad y Senedd ym Mae Caerdydd

Ar Ddydd Gŵyl Dewi 2006, aeth y Tywysog a'r Dduges gyda'r Frenhines a Dug Caeredin i Gymru, lle'r aeth y Frenhines ati i agor y Senedd, cartref ysblennydd newydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd.

### Tywysog Cymru'n areithio ynglŷn â'r berthynas rhwng pobl o wahanol ffydd ym Mhrifysgol Al-Azhar yng Nghairo

Ym mis Mawrth 2006, ar ddechrau ymweliad Eu Huchelderau Brenhinol â'r Aifft ac wrth annerch 800 o ysgolheigion Islamaidd ym Mhrifysgol Al-Azhar, galwodd y Tywysog yn daer ar i bobl tair prif ffydd Abraham: Cristnogaeth, Islam ac Iddewiaeth, ddod i ddeall ei gilydd yn well. Ar ôl ei araith, dyfarnodd y Brifysgol ddoethuriaeth er anrhydedd i'w Uchelder Brenhinol am ei waith ar greu dealltwriaeth rhwng pobl o wahanol ffydd. Hon oedd y ddoethuriaeth er anrhydedd gyntaf i gael ei dyfarnu i un nad yw'n Fwslim.

# DUGAETH CERNYW

Stad breifat yw Dugaeth Cernyw sy'n ariannu gweithgarwch cyhoeddus, elusennol a phreifat Tywysog Cymru a'i deulu. Mae'r stad yn cynnwys tua 54,760 hectar o dir ar draws 20 sir, y rhan fwyaf yn Ne-orllewin Lloegr. Mae'n cynnwys tir ffermio, tir preswylio a daliadau o eiddo masnachol, yn ogystal â phortffolio buddsoddi.

Cafodd stad y Ddugaeth ei chreu yn 1337 gan Edward III ar gyfer Tywysog Edward, ei fab. Prif bwrpas y Ddugaeth bob amser oedd gweithredu fel incwm i Dywysog Cymru fel Etifedd yr Orsedd. Fel Dug presennol Cernyw, mae Tywysog Cymru'n ymwneud llawer â rhedeg y Ddugaeth, ac mae'n gofalu'n arbennig mai sylfaen gwaith rheoli'r Ddugaeth yw arferion gorau o ran yr amgylchedd ac amaethyddiaeth, datblygu cynaliadwy, a gweithio trwy bartneriaethau â thenantiaid a chymunedau lleol. Dangosodd y Tywysog, trwy'r Ddugaeth a'i gwmni bwyd elusennol *Duchy Originals*, nad yw meddwl am y tymor hir a chadw a chynnal cymunedau'n anghyson ag ennill elw ariannol da.

Mae'r hyn mae Dugaeth Cernyw wedi'i gyflawni'n ariannol yn tystio i hyn. Ers i Dywysog Cymru ymgymryd â gwaith ei rheoli ar ei ben-blwydd yn 21 yn 1969, bu twf yr asedau cyfalaf – nad yw'r Tywysog yn cael mynd atyn nhw – yn sylweddol. Bu'r twf yn llawer mwy na'r cynnydd yn incwm Ei Uchelder Brenhinol o'r stad. Mae'r Tywysog yn dewis defnyddio ymhell dros hanner yr incwm (ar ôl talu trethi) o Ddugaeth Cernyw i ddatblygu a symud ei waith cyhoeddus ac elusennol yn ei flaen. Yn 2005-06, cynyddodd yr incwm o'r Ddugaeth 6% i £14.06 miliwn. Effaith adolygiadau o renti eiddo masnachol a chynnydd mewn incwm buddsoddi sy'n bennaf gyfrifol am gynnydd yr incwm.

Er mwyn gofalu bod yr incwm yn parhau i fod ar gael i'w drosglwyddo i'r cenedlaethau nesaf, nid oes hawl gan Ddug Cernyw i fynd at gyfalaf y Ddugaeth. Ystyr hyn yw nad yw Tywysog Cymru'n cael unrhyw elw a ddaw o werthu asedau cyfalaf, ond fod yr elw'n cael ei fuddsoddi eto yn y Ddugaeth. Ar ben hynny, er mwyn gofalu bod gwaith rheoli'r Ddugaeth yn canolbwyntio digon ar amddiffyn a gwella ei hasedau cyfalaf, cafodd deddfau eu cyflwyno yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Ddugaeth gael ei rhedeg fel menter fasnachol. Byddai'r Trysorlys hefyd yn gweithredu fel math o ymddiriedolwr a fyddai'n amddiffyn buddiannau Dugiaid y dyfodol. Prif ddull y Trysorlys o wneud hyn yw cymeradwyo pob achos o brynu a gwerthu eiddo cyfalaf sy'n werth £200,000 neu fwy. Mae'r Senedd yn cael gweld cyfrifon y Ddugaeth bob blwyddyn er mwyn gofalu bod y Trysorlys yn cyflawni ei ddyletswyddau yn y cyswllt yma. Cadarnhaodd y Trysorlys sylfaen y Ddugaeth eto eleni gan ymateb i bwyntiau a gafodd eu codi gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae ymatebion y Trysorlys, Dugaeth Cernyw a Dugaeth Lancastr (y stad sy'n cael ei dal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer y Brenin neu'r Frenhines) i argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'w gweld ar y rhyngrwyd ar www.official-documents.co.uk.

Mae Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n ymboeni llawer am y Ddugaeth ac am y bobl sy'n byw ar y stad. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd eu hymweliad cyntaf ers eu priodas â Dyfnaint, Cernyw ac Ynysoedd Sili ym mis Mai 2005.

Mae Tywysog Cymru'n ymwneud llawer â gwaith rhedeg y Ddugaeth, ac mae'n gofalu'n arbennig mai sylfaen gwaith rheoli'r Ddugaeth yw arferion gorau o ran yr amgylchedd ac amaethyddiaeth, datblygu cynaliadwy, a gweithio trwy bartneriaethau â thenantiaid a chymunedau lleol.

**RHEOLI FFORESTYDD**

Fel rhan o'r tir mae Dugaeth Cernyw'n ei ddal, mae'n rheoli tua 1,700 hectar o goetir, llawer ohono'n dyddio'n ôl sawl canrif. Wrth reoli fforestydd, prif nod y Ddugaeth yw dibynnu lle bynnag y bo hynny'n bosib ar natur i greu coetiroedd amrywiol a chynaliadwy. Nid yn unig y mae'r coetiroedd yma'n cynnig coed gwerthfawr ac yn cynnal cyfoeth o fywyd gwyllt, ond maen nhw hefyd yn amgylcheddau deniadol ar gyfer y cyhoedd.

Mae'r coed o'r coetiroedd naill ai'n cael ei werthu i amryw o wahanol farchnadoedd neu'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol ar stad y Ddugaeth. Er enghraifft, mae coed ynn o stad Henffordd yn mynd i wneud math newydd *Duchy Originals* o ddodrefn ac offer garddio, ac mae'r sglodion pren yn cael eu defnyddio wrth fygu rhai o fwydydd y cwmni. Mae Tywysog Cymru o blaid rheoli coetiroedd mewn ffordd gynaliadwy, ac mae'n annog eraill i wneud hynny hefyd. Mae rhwng 25,000 a 30,000 o goed yn cael eu hailblannu bob blwyddyn. Mae Cyngor Stiwardiaeth Fforestydd (*Forest Stewardship Council*) yn ardystio bron pob un o goetiroedd y Ddugaeth sy'n cael ei drin.

Mae Eu Huchelderau Brenhinol wedi'u cysylltu â nifer o elusennau yng Nghernyw a mudiadau eraill yn y De-orllewin. Cefnogi'r mentrau yma a busnesau a chymunedau'r ardal oedd prif amcan yr ymweliad.

Dan arweiniad Ei Uchelder Brenhinol, gwelodd y Ddugaeth ers tro byd werth a manteision trawsnewid adeiladau segur yn llefydd gweithio a chartrefi. Ym mis Gorffennaf 2006, aeth y Tywysog i Sir Henffordd i weld y set gyntaf o dai ac unedau gweithio sydd newydd gael ei chwblhau. Bu'r adeiladau, a gafodd eu prynu gan y Ddugaeth yn 2000 fel rhan o Stad Harewood End, yn wag neu'n segur am dros 25 mlynedd. Wrth i'r Ddugaeth gwblhau rhannau nesaf y project adfywio yn Harewood End, bydd yn parhau i greu swyddi a chartrefi yn yr ardal.

Ym mis Chwefror 2006, cyflwynodd y Tywysog ei Wobrwyon *Habitat* i denantiaid fferm y Ddugaeth. Sefydlodd Ei Uchelder Brenhinol y gwobrwyon 10 mlynedd yn ôl er mwyn cydnabod arferion rheoli a hwsmona a gafodd eu mabwysiadu am eu bod nhw'n ffafrio'r amgylchedd naturiol, heb beryglu daliadau hwsmona da a sefyllfa ariannol gadarn.

Mae'r Ddugaeth yn mynd ati i annog ei thenantiaid i warchod yr un pryd â ffermio'n fasnachol. Mae'n gwneud hyn trwy gynnig gwybodaeth am arferion gorau o ran gwarchod yr amgylchedd, trwy annog y cyfraddau uchaf o fioamrywiaeth, a thrwy wneud pobl yn ymwybodol o egwyddorion ffermio organig a phosibiliadau cynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill. Mae'r stad hefyd yn gweithio fel partneriaid â nifer o gyrff amgylcheddol eraill fel Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt (*Farming and Wildlife Advisory Group*), Fforwm ar gyfer y Dyfodol (*Forum for the Future*), Cymdeithas y Pridd (*Soil Association*) ac *English Nature*. Mae rhagor o wybodaeth am Ddugaeth Cernyw ar www.duchyofcornwall.org.

# CYFRIFOLDEBAU AMGYLCHEDDOL A CHYMDEITHASOL

Y Tywysog a'r Dduges yn plannu coeden ar Stad Highgrove.

Bu Tywysog Cymru'n tynnu sylw at faterion yr amgylchedd ers llawer o flynyddoedd. Yn ystod 2005-06, ymdrechodd Ei Uchelder Brenhinol yn ddyfal trwy areithio, gwneud cyfweliadau yn y cyfryngau, a chwrdd ag arweinwyr busnesau er mwyn tynnu sylw at bryderon mwy a mwy o bobl am yr amgylchedd ac i annog cwmnïau ac unigolion i leihau effeithiau niweidiol eu gweithgareddau ar y byd naturiol.

Wrth annerch Sefydliad y Cyfrifyddion Siartredig ym mis Mai 2005, galwodd y Tywysog ar gwmnïau i roi sylw i gynaliadwyedd wrth arwain eu busnesau, gan ystyried effeithiau eu gweithgarwch masnachol ar yr amgylchedd. Dywedodd: "Awgrymaf fel isafswm fod angen twf arnon ni heb golli'r 'cyfalaf naturiol' yr ydyn ni i gyd yn dibynnu arno. Fel sy'n digwydd gyda chyfalaf ariannol, mae angen i ni wario'n ddoeth wrth wario cyfalaf naturiol. Rhaid i ni fynd ati i'w ailgyflenwi er ein lles ni'n hunain ac er lles ein plant a'n hwyrion. Mae hynny'n golygu derbyn bod y fath beth â therfyn ar adnoddau naturiol mewn byd lle maen nhw'n gyfyngedig."

Mae Tywysog Cymru'n ymdrechu i ddilyn ei bregeth ei hun, a bu modd cyflawni llawer yn y blynyddoedd diweddar wrth fynd ati i leihau effaith gweithgarwch ei Aelwyd ar yr amgylchedd. Mae mynd ati i ddilyn arferion sy'n ffafrio'r amgylchedd, fel ailgylchu ac arbed ynni, bellach yn rhan o fywydau bob-dydd ei staff. Ac maen nhw'n defnyddio dulliau mwy effeithlon o deithio (fel gyrru ceir sy'n defnyddio ynni'n effeithlon neu geir 'hybrid') mor aml â phosib.

Mae system wresogi sy'n defnyddio sglodion coed yn cael ei gosod yn Highgrove (ac mae cynlluniau ar y gweill i osod yr un math o system yn Birkhall, cartref Eu Huchelderau Brenhinol yn yr Alban). Mae dŵr yn cael ei ailgylchu yn Highgrove trwy system garthffosiaeth naturiol, a phaneli gwres solar sy'n gwresogi'r llaethdy.

Yn ogystal â gwella effeithlonrwydd sy'n arwain at gwtogi ar allyriadau, aeth y Tywysog ati ym mis Ebrill 2005 i wneud rhywfaint o iawn am ei allyriadau carbon. Mae'n gwneud hynny trwy fuddsoddi, trwy asiantaeth arbenigol, mewn projectau ynni cynaliadwy a mentrau defnyddio ynni'n effeithlon, yn y wlad yma a thramor fel ei gilydd. Mantais arall yw bod y buddsoddi yma'n cynorthwyo projectau ym maes cynaliadwyedd na fyddai, fel arall, yn cael eu hariannu efallai. Wedi dweud hynny, bydd defnyddio ynni'n effeithlon a chwtogi ar allyriadau bob amser yn parhau'n flaenoriaethau.

Yn y cyswllt yma, aeth y Tywysog ati yn ystod hydref 2005 i gomisiynu adroddiad i fesur 'ôl-troed carbon' ei Aelwyd gyfan, yn cynnwys y tri chartref yn Clarence House, Highgrove a Birkhall. Roedd yr adroddiad yn cynnwys adolygiad llawn o ddefnydd yr Aelwyd o drydan, arferion teithio'r staff wrth deithio i'w gwaith ac wrth wneud teithiau eraill mewn ceir, trenau ac awyrennau, yn ogystal â theithiau personol Eu Huchelderau Brenhinol. (Awydd y Tywysog ei hun i gwtogi ar allyriadau carbon wrth iddo deithio a ysgogodd ei benderfyniad yn 2005 i roi'r gorau i chwarae polo, gan fod prinder amser yn aml yn golygu y byddai'n rhaid i'w Uchelder Brenhinol ddefnyddio hofrennydd i deithio i gemau ac adref wedyn.)

**UWCHBEN**
Highgrove House
*Trwy gwrteisi Andrew Lawson.*

Aeth y Tywysog ati i gomisiynu adroddiad i fesur ‘ôl-troed carbon’ ei Aelwyd gyfan, yn cynnwys y tri chartref yn Clarence House, Highgrove a Birkhall.

Tynnodd yr adroddiad sylw at fannau lle y byddai modd cwtogi rhagor ar allyriadau carbon deuocsid. Ar ôl iddo gael ei sefydlu, bydd Ôl-troed Carbon 2005 yn gweithredu fel ‘llinell sylfaen’ ar gyfer mesur eco-effeithlonrwydd yn y dyfodol.

Un arall o bryderon Ei Uchelder Brenhinol yw prinder dŵr, ac mae wedi gofyn i archwiliad dŵr gael ei wneud ym mhob un o’r tri chartref. Lle bynnag y bo hynny’n ymarferol, mae ‘hippos’ – briciau cwtogi ar ddŵr – eisoes wedi cael eu gosod mewn tai bach, a bydd mesurau eraill yn cael eu rhoi ar waith ar ôl yr archwiliad.

Er mwyn gofalu bod modd mesur ymdrechion yr Aelwyd i leihau ei heffaith amgylcheddol, a bod yr ymdrechion hynny’n parhau, y bwriad yw cyflwyno system reoli amgylcheddol. Ei nod yw defnyddio adnoddau’n fwy effeithlon a dangos sut mae meysydd penodol, fel y defnydd o ddŵr a phapur ac effeithlonrwydd ynni, wedi newid o’r naill flwyddyn i’r llall.

Bydd arferion staff wrth deithio i’w gwaith ac i lefydd eraill, ac arferion teithio’u Huchelderau Brenhinol hefyd, yn cael sylw arbennig. Bydd rhagor o waith adolygu’n cael ei wneud ar y ddau, a’r bwriad hefyd yw ystyried cyflwyno cynllun teithio ‘gwyrdd’, yn cynnwys cynllun ‘beicio i’r gwaith’. Mae’r Aelwyd eisoes yn defnyddio cwmni tacsis ‘gwyrdd’ yn Llundain.

Mae’r Aelwyd a chartrefi’r Tywysog hefyd yn rhan weithgar o’r cymunedau o’u cwmpas. Mae Clarence House ar agor i’r cyhoedd, ac mae grwpiau o blant ysgol a phobl ifanc yn cael eu gwahodd i’r tŷ bob blwyddyn i weld ei ddulliau gweithio. Mae gardd Highgrove ar agor i ymwelwyr rhwng mis Ebrill a mis Hydref.

Mae’r Tywysog yn defnyddio Home Farm, Highgrove, fel ardal gadwraeth ar gyfer rhywogaethau mewn perygl. Mae Cymdeithas y Pridd yn ei defnyddio fel fferm arddangos ar gyfer dangos pa mor effeithiol yw ffermio organig. Yn ôl Patrick Holden, Cyfarwyddwr Cymdeithas y Pridd y mae’r Tywysog yn Noddwr iddi: “Cael mynediad i fferm a gerddi Highgrove oedd yr un dylanwad cryfaf a berswadiodd y rheini sy’n creu polisïau, cyfathrebwyr y cyfryngau, perchnogion tir a chynrychiolwyr y diwydiant bwyd fod twf yn bosib mewn bwyd a ffermio organig.”

Er 1990, mae Tywysog Cymru wedi’i gwneud hi’n ofynnol i Ddeiliaid ei Warant gwrdd â meini prawf amgylcheddol penodol. Mae targedau addas yn cael eu gosod nawr i’r sawl sy’n dal Gwarant, fel bod modd asesu wrth wneud adolygiadau cyfnodol o’u Gwarantau a yw eu heffaith ar yr amgylchedd wedi lleihau.